

DEDDF CARTREFI SYMUDOL (CYMRU) 2013

EXPLANATORY NOTES

SYLWADAU AR ADRANNAU

Rhan 2

– Trwyddedu Safleoedd Cartrefi Symudol etc

Adran 21

- P#er i gymryd camau brys

45. Mae adran 21 yn darparu p#er i awdurdod lleol gymryd camau brys mewn rhai amgylchiadau.
46. Mae is-adran (2) yn pennu y caiff awdurdod lleol gymryd pa bynnag gamau sy'n angenrheidiol i ddileu risg sydd ar fin digwydd, o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson sydd, neu a all fod, ar y tir. O dan is-adrannau (3) i (5), pan fo awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau brys o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod gyflwyno hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth benodedig i'r perchennog. Caiff yr hysbysiad hwnnw ddatgan hefyd y byddai'r awdurdod lleol yn gwneud cais am warrant o dan adran 32(3) pe gwrthodid mynediad i'r tir. Rhaid cyflwyno'r hysbysiad yn ddigon cynnar cyn yr adeg y bwriedir mynd i mewn, er mwyn rhoi rhybudd digonol i berchennog y tir.
47. Mae is-adran (6) yn darparu, pan fo awdurdod lleol yn awdurdodi person ac eithrio swyddog yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran, y trinnir y person hwnnw fel person awdurdodedig o dan adran 32(1) o'r Ddeddf.
48. Mae is-adran (7) yn pennu nad yw'r gofyniad yn adran 32(1) i arfer yr hawl mynediad "ar bob adeg resymol" yn gymwys, oherwydd gallai hynny fod yn amhriodol mewn sefyllfa o argyfwng. Nid yw'r gofyniad i roi 24 awr o rybudd o'r bwriad i fynd i mewn yn gymwys yma ychwaith. Mae is-adran (8) yn pennu bod rhaid i'r awdurdod lleol, o fewn 7 diwrnod ar ôl dechrau cymryd camau brys, gyflwyno hysbysiad pellach i'r perchennog, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodedig, gan gynnwys y rhesymau dros gymryd y camau ac esboniad o'r hawl i apelio.
49. Darperir i'r perchennog yr hawl i apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl yn erbyn y camau brys, naill ai ar y sail nad oedd risg ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch person a oedd, neu a allai fod, ar y tir, neu nad oedd (neu nad yw) y camau gan yr awdurdod lleol yn angenrheidiol er mwyn dileu risg o'r fath.